- **BWRDD PARTNERIAETH IECHYD, GOFAL CYMDEITHASOL A LLES GWYNEDD**

Cofnodion cyfarfod 9fed Ebrill 2008 2 - 4pm yn Ystafell Gyfarfod Bwrdd Iechyd Lleol, Caernarfon

Presennol: Sandra Cairney, Gwen Carrington, Clare Jones, Sioned Larsen, Dr Lyndon Miles (Cadeirydd), Cynghorydd Godfrey Northam, Dafydd Owen, Llinos Owen, Grace L Parry, Alwyn Rowlands, Janet Roberts.

	EITEM A DRAFODWYD AR Y RHAGLEN	**Gweithred gan**
1	**Croeso ac ymddiheuriadau** Derbyniwyd ymddiheuriadau gan, Craig Barton, Pat Billingham, Nia Elis-Williams, Darren Griffiths, Dafydd P Lewis, Glanville Owen, Harry Thomas.	
2	**Cofnodion cyfarfod 24/01/2008** **Cywirdeb** – • Pwynt 2.1. Edwina Hart, Gweinidog Iechyd sydd wedi gofyn am Adolygiad annibynnol. Diddymu geiriau 'Swyddfa Ranbarthol. • Nododd Sioned Larsen (SL) bod angen ategu mwy o wybodaeth i'r cofnodion ynglŷn â thoriadau Gwasanaethau Gwirfoddol. Gweler isod y wybodaeth ychwanegol wedi ei baratoi gan ?, *'Mae Grŵp Cyswllt wedi cytuno y bydd yn derbyn manylion am unrhyw doriadau arfaethedig o gyfeiriad y Cyngor (ar ffurf Cytundebau Lefel Gwasanaeth i'r Sector) mewn digon o bryd i fedru rhoi tystiolaeth gyflawn at ei gilydd i sicrhau fod manylion llawn ar gael cyn i unrhyw doriad ddigwydd. Mae hwn yn rôl allweddol bwysig i'r Grŵp Cyswllt - roedd hwn yn gam y teimlwyd fod wir angen ei gymryd yn dilyn toriadau sylweddol i'r trydydd sector dros y flwyddyn ddiwethaf'*. Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir. **Materion yn codi** – • Ansicrwydd dyfodol y Bwrdd Iechyd Lleol a'r Strategaeth – i'w drafod ymhellach (gweler isod). • 2.1 Ysbyty Blaenau Ffestiniog. Darllenodd y Cadeirydd ddatganiad i aelodau'r grŵp o gam adrodd gan y wasg ynglŷn â chau Ysbyty Blaenau. • 4.3.6 Yn dilyn ymholiad y Cyng. Godfrey Northam am NSF Cancr cadarnhaodd Janet Roberts (JR) mai penderfyniad y Llywodraeth yw dewis NSF. Safonau Cenedlaethol sydd ar gael i gancr. • 6.v8 NSF Pobl Hyn - eglurodd JR bod cysylltiadau cryfach wedi eu mabwysiadu gyda'r Ymddiriedolaeth - person cyswllt yw Ann Marie Rowlands. Cafwyd cyfarfod llwyddiannus (07.04.08) gan gyflwyno a datblygu syniadau i wella'r gwasanaeth. Nid yw'r Cynulliad wedi rhoi arweiniad. Y Bwrdd Iechyd fydd yn arwain ar fwydo'r wybodaeth - strwythur gref.	

	Trafod Dyfodol y Bwrdd Iechyd Lleol – Arweiniwyd gan Grace L Parry (GLP) Cylchredwyd papurau. Yn dilyn cyfnod ymgynghoriaeth o 12 wythnos (25.06.08) i'r adroddiad, bydd disgwyliad i'r Gweinidog Iechyd benderfynu'r strwythurau fydd yn cael eu mabwysiadu. Eglurodd GP ymhellach bod Staff a Phartneriaid yn ymwybodol o'r adroddiad a deallir mai cynllun y Cynulliad yw diddymu'r farchnad fewnol gan greu amgylchedd heb elfen o gystadleuaeth. Un cynnig yw creu Bwrdd Cenedlaethol yn gyfrifol am bolisi, datblygiad, cyfarwyddyd a chomisiynu. Amlinellodd GP bod hwn yn gam positif ymlaen a bod angen creu strwythur i sicrhau bod Gwynedd yn cael llais. O safbwynt dyfodol i strategaethau, bydd cysylltiad i wasanaethau ymhob Sir. Pwysigrwydd yma i'r Awdurdod Lleol a'r Sector Wirfoddol fynegi barn. Amser yn brin oherwydd etholiadau a chyfarwyddyd i'r Cynghorwyr yw osgoi pynciau dadleuol yn y cyfnod yma. Angen trafod hyn gyda Harry Thomas. Nodwyd bod y Cynulliad yn ymwybodol o gyfnod etholiad ac felly hanfodol bod sylwadau ac adborth i'w anfon i GP	
	Adroddiad y Cydlynydd – Janet Roberts Prif weithgareddau yw • datblygu'r strategaeth ymhellach • cyflawni Cynllun Gweithredu. Yn ychwanegol mae, • LOG newydd yn cyfarfod 14.04.08 o dan enw newydd Grŵp Cynllunio a Chomisiynu (GCaC) • Cynllunio ar y Cyd wedi ei resymoli • Gynghrair Iechyd wedi cyfarfod 07.04.08 i drafod adroddiadau cynnydd 6 mis olaf a gosod targedau newydd • Ail gynllunio darpariaeth gwasanaeth Teleiechyd ar y cyd efo Môn. Cyflwyniad manylach yn y cyfarfod nesaf. • Urddas mewn Gofal - ymgyrch fawr gan y Cynulliad. Fforwm Gofal Cymru wedi darparu siarter - cydweithio efo Môn eto ar hwn.	
4	**Materion Strategol** **i) Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles 2008/11** Y Strategaeth Iechyd erbyn hyn wedi ei chwblhau - angen gwiriad terfynol a gosod atodiadau. Disgwylir iddi fynd i'r Argraffdy 14.05.08 ac ymlaen i'r We. **ii) Cynllun Gweithredu drafft y Strategaeth** Tîm Rheoli wedi nodi diffyg blaenoriaethu. Cais pellach gan Fwrdd y Cyngor i greu dogfen sy'n pontio rhwng Strategaeth a Cynllun Gweithredu. JR wedi ysgrifennu adroddiad i egluro blaenoriaethu - Lynden Miles (LM) yn anghydweld bod angen papur pontio - angen blaenoriaethu yn unig. Angen sicrhau bod blaenoriaethu'r strategaeth yn cyd fynd a blaenoriaethau'r gwasanaeth. GCaC yn canolbwyntio ar feysydd blaenoriaeth - rhai eisoes yn symud ymlaen. Angen sicrhau cydlyniaeth e.e., bod Iechyd yn cael ei drafod ym maes Tai. GCaC yn hyderus bod dangosyddion yn dangos llwyddiant yn erbyn gwelliant. Unrhyw sylwadau pellach o'r Cynllun Gweithredu i'w hanfon at JR. **iii) Diweddariad ar y Cynllun Plant a Phobl Ifanc** Dogfen drafft cyntaf wedi cael ei chyflwyno ym mis Mai - Darren Griffiths i ddod	

	i'r cyfarfod 24.07.08 am ymgynghoriad gan y Bwrdd. **iv) Cynllun Tair Blynedd Cyngor Gwynedd 2008/9 - 2010/11 - Drafft Ymgynghorol.** Nodwyd bod diffyg son am iechyd yn y Cynllun yma. Siom nad yw'r Cynllun yn adlewyrchu'r Strategaeth Iechyd a gwaith y Gynghrair. Cyfnod ymgynghoriad yr adroddiad yn dod i ben 11.04.08 - yn bwysig y dylai'r 'Bwrdd Partneriaeth Iechyd' amlygu sylwadau ysgrifenedig. Noder hefyd nad oedd copi o'r Drafft Ymgynghorol wedi ei chylchredeg i'r Bwrdd Iechyd Lleol - trafodwyd fel cofnodion mewn cyfarfod yn unig. Sylwadau i JR fydd yn eu cael eu hanfon ymlaen i Arwel Jones (Uwch Reolwr Polisi Gweithredu Cyngor Gwynedd). **v) Ymgynghoriad ar Safonau Iechyd a Digartrefedd** Dogfen wedi ei chylchredeg i aelodau'r Bwrdd i dynnu eu sylw'r at yr uchod. Cyfnod Ymgynghoriad yn diweddu 21.04.08. Cyfarfod Fforwm Digartrefedd 14.04.08 - unrhyw ymateb ffurfiol i'w anfon at sylw Martin Davidson.	JR
5	**Llywodraethiad** **Aelodaeth y Bartneriaeth** Trafodwyd aelodaeth y Bwrdd Partneriaeth er mwyn diweddaru rhestr. Aelodau Bwrdd yn debygol o newid yn sgil pleidlais mis Mai. CJ i anfon cylch gorchwyl at JR.	CJ
6	**Cyd-weithio** **i) Cytundeb Adran 33 Deddf Gwasanaethau Iechyd (Cymru) 2006 ar gyfer moderneiddio ac integreiddio gwasanaeth offer cymunedol.** Dafydd Owen yn arwain y drafodaeth - yn cydweithio yn agos gydag Arfon Pritchard (Bwrdd Iechyd Lleol). Nodwyd y bydd trefniadau/cytundeb newydd yn dod i rym pan fydd storfa newydd yn barod. Cymeradwywyd hyn. **ii) Ail fodelu Gwasanaeth Iechyd Lleol** Clare Jones yn arwain. Cylchredwyd papurau. Papur cyntaf yn ddogfen wedi ei hysgrifennu yn arbennig ar gyfer cyflwyno'r weledigaeth, newidiadau ac awgrymiadau ymysg staff, aelodau o'r cyhoedd a budd-ddeiliaid. Y ddogfen wedi ei chymeradwyo gan y Bwrdd Gwasanaeth. Rhan gyntaf yr ail-fodelu bydd Cyflyrau Cronig. Yr ail bapur - 'Project Brief' - nodwyd mai'r GCaC fydd yn atebol i hwn. Y gwaith yma yn cynnwys y Cynllun Gwasanaeth Cymunedol. Y Cyngor, Bwrdd Iechyd Lleol a'r Ymddiriedolaeth Iechyd yn rhwym i'r gwaith yma. Disgwyl adborth gan ddarllenwyr cyn ân anfon yr adroddiad allan am gyfnod ymgynghori. **iii) Dyfodol y Grant Cydweithio** Dafydd Owen yn arwain. Eglurwyd bod Canllawiau Grant 07.03.08 wedi eu derbyn. Bwriad y Cynulliad yw trosglwyddo hwn i'r Cyngor yn 2009. Parhau gyda chynlluniau'r flwyddyn ddiwethaf. Cytunodd y Bwrdd i gefnogi'r penderfyniad.	

	iv) Cofnodion cyfarfod y Grŵp Swyddogion Arweiniol 14.01.08 a 04.02.08 Er gwybodaeth yn unig. Dim sylwadau.	
7	**Unrhyw Fater Arall** i) Nodwyd gan Sioned Larsen yr angen i'r Grŵp Cyswllt (cytundeb gan y Sector Wirfoddol a Chyngor Gwynedd), dderbyn manylion SLA's am unrhyw doriadau arfaethedig gael eu cyfeirio i'r grŵp er mwyn sicrhau manylion llawn. Dafydd Owen a Sioned Larsen i drafod hyn ymhellach. Toriadau yn y gorffennol wedi cael effaith mawr. ii) Cyfeiriodd GLP at lythyr Betty Williams - 'NWW Olympic Games' yn holi os oedd Cyngor Gwynedd yn hyrwyddo agenda paratoadau'r Olympics yng Ngwynedd. Angen trafod syniadau a'r goblygiadau economaidd. GLP i drafod gyda Harry Thomas.	
8	**Cyfarfod Nesaf** **Dyddiad: 24.07.2008** **Amser: 2:00 – 4:30pm** **Lleoliad: Glyder Fawr, Penrallt, Caernarfon**	